"Gofalwch ymgadw rhag trachwant o bob math, oherwydd, er cymaint ei gyfoeth, nid yw bywyd neb yn dibynnu ar ei feddiannau."
(Luc 12:15)

Wrth fynd i ymweld mewn ysbyty rywdro, deuthum ar draws saer maen oedd mewn gwth o oedran. Wrth siarad ag ef ,dechreuodd ddyfynnu'r adnod yma yr oedd ei fam wedi ei dysgu iddo er mwyn ei osod ar ben ffordd bywyd. Mae'r adnod wedi glynu yn fy meddwl ers hynny, ac mae'n osodiad pwysig, perthnasol ac amserol i ni yn y Gymru faterol, gyfoes.

Dysgeidiaeth faterol ein hoes

Mae geiriau Crist yn hollol groes i athroniaeth ein hoes faterol ni. Mae'r athroniaeth yn dweud bod angen llawer o 'bethau' materol er mwyn gwneud bywyd yn well ac yn fwy cyflawn.

Er enghraifft, mae bywyd yn well os yw ein tŷ yn well. Mae'r cartref yn well os yw'n fwy, neu'n fwy newydd ym marn rhai. Y dodrefn gorau sy'n rhoi'r bywyd gorau, y teclynau diweddaraf sy'n rhoi'r manteision mwyaf i hwyluso bywyd. Mae llawer hefyd yn tybio bod bywyd yn well os yw'r car yn well, yn fwy crand, sgleiniog a newydd.

Mae cwmnïau benthyg arian yn gwneud yn dda iawn yn yr awyrgylch presennol. Does ryfedd eu bod yn ein boddi â'u hysbysebion beunydd beunos. Cawn ein bombardio trwy'r cyfryngau, trwy'r post, trwy'r ffôn a thrwy'r Wê gan gynigion rhyfeddol i fenthyg symiau mawr o arian. Pan mae rhywun yn gofyn: 'i beth?' daw'r ateb fel bwled bod y benthyciad yn sicrhau y cawn y peth ychwanegol yr oeddem ei eisiau, megis ystafell haul, car newydd, dodrefn newydd, gwyliau tramor, neu un o fil o bethau eraill, mae'n siŵr.

Cyd-destun

Cyd-destun geiriau Crist yw cais gan rywun iddo'i gefnogi mewn mater etifeddiaeth, ar ôl colli perthynas, mae'n debyg. Dyma ni'n cael ein hatgoffa o'r potensial sydd gan drachwant i greu tensiwn teuluol mewn profedigaeth, yn hytrach na thynnu pawb at ei gilydd yn eu galar. On'd ych chi wedi gweld hyn yn eich teulu chi? Ydych chi wedi gweld perthnasau yn 'ymddangos' adeg profedigaeth ac angladd? Welsoch chi'r sefyllfa o rannu eiddo cartref yr ymadawedig, a'r adar ysglyfaethus yn hedfan i'r fan yn un haid barus?

Trachwant

Mae'r Cynghorwr rhyfeddol yn gwybod am beth mae'n sôn wrth gyfeirio at

beryglon ac at bŵer trachwant. Dyma'r grym mewnol sydd yn perthyn i bob un ohonom wrth natur. Mae fel bwystfil sydd angen ei fwydo'n barhaus ond nad yw byth yn cael ei ddigoni. Mae'n rhuo nerth ei ben ynom nes iddo gael llond ei fol am y tro. Gall trachwant ein gyrru i wahanol feysydd, ond mae trachwant am arian ac eiddo yn nwyd grymus eithriadol.

Cyngor y Gair

Mae gan y Beibl lawer i'w ddweud wrthym am drachwant a'i fygythiad sylweddol i'n heneidiau:

Mae'r Deg Gorchymyn yn diweddu gyda'r gorchymyn i beidio â chwennych eiddo ein cymydog, o blith ei deulu, na'i eiddo materol chwaith.

Mae'r apostol Paul yn rhestru trachwant yn aml ymhlith pechodau sydd yn perthyn i'r natur lygredig. Dylai'r sawl sydd yng Nghrist ei goncro a'i roi heibio trwy nerth yr Ysbryd Glân, a pheidio â bod: **"yn gyforiog o bob math o anghyfiawnder a drygioni a thrachwant ac anfadwaith"** (Rhuf.1:29). **"Anfoesoldeb rhywiol, a phob aflendid a thrachwant, peidiwch hyd yn oed â'u henwi yn eich plith, fel y mae'n briodol i saint"** (Eff. 5:3).

Mae'r Arglwydd yn sôn am bryderu'n ormodol am fwyd a dillad yn y Bregeth ar y Mynydd. Mae'n ein hannog a'n cynghori: **"Ond ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi"** (Math. 6:33).

Y ddameg

Yn y ddameg fach sy'n dilyn, mae'r gŵr cyfoethog yn dilyn athroniaeth y byd; am fod ganddo gnwd da, bydd bywyd yn fras a chysurus a diogel o hyn ymlaen. Mae'n cynllunio yn ôl ei athroniaeth a'i gred. Dywed Iesu, fodd bynnag, nad meddiannau sydd yn cynnal ac yn cyflawni bywyd, ond Duw. Dywed y Testament Newydd yn glir mai'r person gwir gyfoethog yw'r sawl sydd wedi derbyn bywyd tragwyddol yn Iesu Grist, ac sydd yn blentyn ac yn etifedd Duw: **"Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! Y mae wedi'n bendithio ni yng Nghrist â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd**" (Eff. 1:3). Yn rhan gyntaf yr epistol, mae Paul yn rhestru pum eitem ysbrydol sy'n gwneud y Cristion yn gyfoethog:

ei ddewis yng Nghrist;
ei dderbyn yn fab Duw trwy Iesu Grist;
ei brynu'n rhydd trwy ei waed;
etifeddiaeth dragwyddol ynddo Ef;
ei selio â'r Ysbryd Glân yng Nghrist.

Boed i ni gael gras i ymgyfoethogi yn yr Arglwydd Iesu Grist.